OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1349

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

## RHAN 1

## Cyflwyniad

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio'r darpariaethau a grybwyllir ym mharagraff (3), i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

(3) Daw'r rheoliadau a ganlyn i rym ar 6 Mai 2022—

(a) rheoliad 10 (anghymhwyso swyddogion a staff penodol a chyfyngiadau gwleidyddol arnynt);

(b) rheoliad 27 (darllediadau electronig);

(c) rheoliad 31 (dyletswydd i wneud cynlluniau deisebau);

(d) rheoliad 32 (dyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi).

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf 2021;

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**1**);

ystyr "Deddf 1988" ("*the 1988 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**2**);

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**3**);

ystyr "Deddf 2011" ("*the 2011 Act*") yw Deddf Lleoliaeth 2011(**4**);

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

ystyr "Mesur 2011" ("*the 2011 Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(**5**);

ystyr "rheolau sefydlog" ("*standing orders*") yw rheolau sefydlog cyd-bwyllgor corfforedig a wneir o dan y Rheoliadau sefydlu;

ystyr "y Rheoliadau sefydlu" ("*the establishment Regulations*") yw—

(**1**) 1972 p. 70.
(**2**) 1988 p. 41.
(**3**) 1989 p. 42.
(**4**) 2011 p. 20.
(**5**) 2011 mccc 4.

(a) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021(**6**),

(b) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021(**7**),

(c) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021(**8**), a

(d) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021(**9**).

(**6**) O.S. 2021/339 (Cy. 93).
(**7**) O.S. 2021/342 (Cy. 96).
(**8**) O.S. 2021/343 (Cy. 97).
(**9**) O.S. 2021/352 (Cy. 104).